# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cygnor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 14EG MEHEFIN, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 4/06/21)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd Jones
Beth Lawton
Dewi Wyn Roberts

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
Margaret E.Jones
David Wareing
Einir Young
Hywel Eifion Jones

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

*Ethol Cadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwn.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

*Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwn.

**D.S – mae'r rheoliadau perthnasol yn nodi:-*

*"Dim ond aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a all fod yn gadeirydd neu is-gadeirydd."*

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Chwefror, 2021 fel rhai cywir.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2020/21 11 - 27

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol).

## 8. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - NEWIDIADAU I'R FFRAMWAITH FOESEGOL 28 - 34

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

## 9. COFLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD OMBWDSMON 35 - 46

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol).

## 10. HONIADAU YN ERBYN AELODAU 47 - 49

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol).

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 22 CHWEFROR 2021

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton a Dewi Roberts

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Mr Richard Parry Hughes, Aelod Pwyllgor Cymunedol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Mr Hywel Eifion Jones fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen – Ymgynghoriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Canllawiau Drafft Newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Tref a Chymuned, oherwydd ei fod yn aelod o Banel Dyfarnu Cymru, a bod cyfeiriad at y panel yn yr adroddiad.

Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, 2020 fel rhai cywir.

**5. HUNAN ASESIAD A RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i:-
- gynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r pwyllgor yn ystod 2019/20; ac
- ystyried rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2021/22.

Pwysleisiwyd, er bod y tabl hunanasesiad yn Atodiad 1 i'r adroddiad wedi'i seilio ar amgylchiadau arferol, bod y sefyllfa Covid wedi cael ardrawiad sylweddol ar y gallu i gyflawni'r swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er, yn dechnegol, bod nifer o'r swyddogaethau yn disgyn o fewn Categori 4, nid oedd hynny'n adlewyrchiad llwyr o'r sefyllfa, ac roedd yn bwysig nodi mai'r argyfwng oedd wedi gorfodi'r Pwyllgor Safonau i'r sefyllfa yma, yn hytrach nag unrhyw ddiffyg gweithredu ar ei ran.

Gofynnwyd beth oedd barn y Swyddog Monitro ynglŷn ag effeithiolrwydd yr Ombwdsmon o safbwynt penderfynu i ymchwilio i gwynion ai peidio. Mewn ymateb, eglurwyd bod effeithiolrwydd yr Ombwdsmon yn anodd ei fesur, ond y gallai'r pwyllgor fonitro sut mae'r gyfundrefn yn gweithio wrth drafod adroddiadau blynyddol a llythyrau chwarterol yr

Ombwdsmon. Mewn ymateb i gwestiwn pellach ynglŷn â herio penderfyniadau'r Ombwdsmon, eglurwyd nad oedd hynny'n digwydd gam amlaf, oni bai bod yn rywbeth penodol iawn, neu rywbeth wedi'i gamddeall neu ei gamddehongli, neu angen fwy o wybodaeth. Awgrymwyd y gallai'r pwyllgor drafod ychydig mwy ar hyn o dan eitem 6 ar y rhaglen.

Nodwyd y byddai'n fuddiol darparu canllawiau ar y Cod Ymddygiad ar gyfer grwpiau sy'n dewis ymgeiswyr ar gyfer Etholiad 2022, fel bod pobl sy'n rhoi eu henwau ymlaen yn ymwybodol o'r ymrwymiadau sy'n deillio o fod yn gynghorydd. Mewn ymateb, awgrymwyd y byddai'n fuddiol adrodd i'r pwyllgor ym mis Tachwedd ar y paratoadau ar gyfer Etholiad Mai 2022 o safbwynt codi ymwybyddiaeth o ofynion y Cod Ymddygiad ymhlith darpar ymgeiswyr ac aelodau presennol.

Nodwyd ei bod yn amserol i gymryd trosolwg o'r trefniadau hyfforddiant yn gyffredinol, ac awgrymwyd cyflwyno adroddiad ar hynny i gyfarfod mis Mehefin o'r pwyllgor. Nodwyd hefyd, pan fyddai amgylchiadau'n caniatáu, y bwriedid ail afael yn y cwrs peilot i gynghorau cymuned ar y Cod Ymddygiad ar sail rithiol, ac adrodd yn ôl ar hynny.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r canlynol fel hunan asesiad y pwyllgor o'i berfformiad yn 2019/20, gan nodi bod amgylchiadau y tu allan i reolaeth y Pwyllgor Safonau wedi golygu na fu'n bosib' gweithredu sawl cam y tro hwn:-**

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3/4) | Tystiolaeth | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau** | **1** | **Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.**<br><br>**Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn**<br><br>**Pwyllgor wedi derbyn adroddiad ar drefniadau Fframwaith Foesegol yng nghyd-destun cyd-weithio** | **Parhau i fynychu a chefnogi** |
| **Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad** | **2** | **Swyddog Monitro a'i dîm yn darparu cyngor ac arweiniad mewn cyfarfodydd ac ar sail un i aelodau.** | **Adfer camau hyfforddiant pan mae adnoddau yn caniatáu** |
| **Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad** | **Dim angen gweithredu** | **Dim achlysur wedi codi i ddiwygio'r Cod.** | |
| **Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad** | **2** | **Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau**<br><br>**Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru** | **Parhau i fonitro ac ystyried a hyrwyddo dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth**<br><br>**Derbyn adroddiadau rheolaidd o Lyfr Achosion Cod** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Ymddygiad yr Ombwdsmon.**<br><br>**Derbyn adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch.** |
| **Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad** | **3** | | **Angen edrych ar ddarparu hyfforddiant newydd.** |
| **Rhoi goddefebau i aelodau** | **1** | **Ceisiadau wedi eu hystyried dan y drefn newydd.** | |
| **Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon** | **Dim angen gweithredu** | **Ni gododd angen am wrandawiadau yn ystod y flwyddyn** | |
| **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad** | **Dim angen gweithredu** | **Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath** | |
| **Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned** | **3** | **Swyddog Monitro a'i dîm yn darparu cyngor ac arweiniad i gynghorau, clercod ac aelodau.**<br><br>**Mabwysiadu peilot ar gyfer hyfforddi Cod Ymddygiad. Wedi cynnwys sesiwn i beilota cynnwys y cwrs.** | **Cwrs peilot wedi ei gynnal gyda Chyngor Tref Tywyn gydag adborth cadarnhaol. Angen ystyried adfer y rhaglen ar sail rithiol pan mae adnoddau yn caniatáu.** |

**(b) Cymeradwyo'r rhaglen waith a ganlyn ar gyfer 2021/22:-**

**<u>Mehefin, 2021</u>**

**Adroddiad Blynyddol**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**
**Llyfr Achosion yr Ombwdsmon**
**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**
**Hyfforddiant yn gyffredinol**

**<u>Tachwedd, 2021</u>**

**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**
**Cofrestr Datgan Buddiant**
**Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**
**Gwrthdrawiadau Buddiannau a phartneriaid y tu allan i Lywodraeth Leol**
**Paratoi ar gyfer Etholiad Mai 2022 o safbwynt y Cod Ymddygiad**

**Chwefror, 2022**

**Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**

## 6 YMGYNGHORIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – CANLLAWIAU DRAFFT NEWYDD AR Y COD YMDDYGIAD AR GYFER AELODAU CYNGHORAU SIR A CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i gyflwyno sylwadau ac adborth ar ymgynghoriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ganllawiau drafft newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Tref a Chymuned.

Eglurwyd nad oedd cwestiynau penodedig wedi'u gosod yn yr ymgynghoriad, ond gan ddal sylw at bwrpas y ddogfen, awgrymwyd y materion canlynol ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor:-

- Ydi'r arweiniad a roddir yn ddealladwy ac o ddefnydd?
- Oes agweddau sydd ddim gystal ag y gellir eu gwella a sut?
- Oes angen ychwanegu rhywbeth? Beth?

Nodwyd ymhellach bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cael cyfle i ystyried yr ymgynghoriad yn eu cyfarfod ar 18 Chwefror, ac er yn gyffredinol gefnogol i'r canllawiau o ran eu cynnwys a'u tôn, bod rhai cwestiynau wedi codi o gwmpas yr her o ran mynegiant gwleidyddol, a lle mae'r llinell rhwng yr hyn sy'n briodol ac yn amhriodol, ayb, yn enwedig o safbwynt parch a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol, ac ati.

Yna tynnwyd sylw'r pwyllgor at rannau penodol o'r canllawiau, sef:-

- Y prawf dau gam a ddefnyddir gan yr Ombwdsmon wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn, neu a ddylid parhau ag ymchwiliad i dorri'r Cod.
- Hawl mynegiant gwleidyddol, lle gall y Cod ymyrryd, a lle mae'n croesi'r llinell.
- Perthnasedd y Cod i unigolion a'r disgwyliad bod pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus yn cynnal safonau uchel o ymddygiad.
- Y gofyn i aelodau sy'n cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol gydymffurfio â Chod y corff hwnnw, ac y gall torri Cod y corff hefyd olygu bod yr aelod yn torri Cod y Cyngor.
- Rol arweinyddiaeth gymunedol aelodau, a sut y gall gyrru negeseuon e-bost amhriodol neu ddefnydd diofal neu anghyfrifol o gyfryngau cymdeithasol ddwyn anfri ar swydd yr aelod.
- Cymhlethdod rôl a statws y clerc o fewn unrhyw gyngor cymuned.
- Rôl y Swyddog Monitro yng nghyd-destun cynghorau cymuned.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

Nodwyd, er bod y canllawiau'n cynnwys enghreifftiau o dorri'r Cod, nad oedd cyfeiriad at y gosb a roddwyd yn yr achosion hynny.

Awgrymwyd bod y defnydd o esiamplau achos a swigod siarad yn ffordd dda o amlygu rhannau o'r ddogfen a'u gwneud yn berthnasol i bobl.

Nodwyd bod y pwynt ynglŷn â diffyg ymchwilio i gwynion gan yr Ombwdsmon yn codi'n flynyddol yng nghyfarfod y Cyngor llawn, ond roedd yn amlwg bod llai na 5% o waith yr Ombwdsmon yn ymwneud â chynghorau, gyda'r mwyafrif o gwynion yn codi yn y maes iechyd. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod yr Ombwdsmon yn nodi yn ei ragair i'r canllawiau bod nifer y cwynion lefel isel oedd yn dod i law yn dal yn rhy uchel, ac er ei bod yn ymddangos mai nifer fach o aelodau oedd yn cyflwyno'r cwynion hyn, yn y cyfnod heriol hwn, roedd yn bwysicach nag erioed bod adnoddau ei swyddfa'n cael eu defnyddio'n effeithiol, a bod unrhyw ymchwiliad a gynhelid yn gymesur ac yn ofynnol er budd ehangach y cyhoedd. Nodwyd hefyd bod yr Ombwdsmon yn annog aelodau i fanteisio ar unrhyw drefniadau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion 'aelodau yn erbyn aelodau' a holwyd beth oedd rôl y Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro o ran hynny. Mewn ymateb, cyfeiriwyd at Safon Gwynedd a threfn ddatrys fewnol y Cyngor ar gyfer ymdrin ag anghydfod rhwng aelodau ac aelodau. Nodwyd bod y Swyddog Monitro yn dueddol o droi at y drefn fewnol i geisio datrys mater aelod yn erbyn aelod o fewn Cyngor Gwynedd, ac yn y diwedd, drwy'r broses, bod modd dod at y Pwyllgor Safonau i ymdrin â'r mater. Wrth gwrs, gan fod hyn y tu allan i'r fframwaith statudol, nid oedd pwerau'r Pwyllgor Safonau yn sylweddol. Nid oedd llawer o achlysuron wedi codi yng Nghyngor Gwynedd lle'r oedd hyn wedi bod yn berthnasol, ac roedd mwyafrif y cwynion yn deillio o'r cyhoedd yn erbyn aelodau. Roedd angen cyfeirio cwynion o'r fath at yr Ombwdsmon, er yn amlwg, roedd modd i'r Swyddog Monitro gynghori'r cyhoedd. Roedd y sefyllfa'n fwy heriol yn achos cynghorau cymuned gan nad oedd ganddynt yr adnoddau na'r gyfundrefn llywodraethiant i ddatrys problemau rhwng aelodau. Eto, lle'r oedd gwir broblemau, roedd modd i'r Swyddog Monitro geisio helpu'r cynghorau cymuned hynny fel y gallai.

Awgrymwyd efallai bod canfyddiad ymhlith aelodau cynghorau cymuned bod y Pwyllgor Safonau yn gallu datrys anghydfod, a bod lle i'r pwyllgor fod yn fwy ymwybodol o'r cwynion fel y gellid eu trafod a defnyddio'r drefn ddatrys leol i ymateb i'r broblem.

Nodwyd bod yr enghreifftiau yn y canllawiau yn egluro pam na all y Pwyllgor Safonau fynd â mater ymhellach, ac awgrymwyd bod hynny'n cael ei amlygu yn fwy penodol yn adroddiad blynyddol y pwyllgor i'r Cyngor llawn. Mewn ymateb, eglurwyd bod y Pwyllgor Safonau yn cael ei weld fel fforwm datrys cwynion, ond bod raid i bob cŵyn allanol, gan gynnwys cwynion yn deillio o gynghorau cymuned, gael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon. Pe dymunid cynnig gwasanaeth gwahanol i gynghorau cymuned, byddai'n rhaid bod yn fyw i'r ffaith bod yna tua 64 o gynghorau cymuned a thref, a tua 700-750 o aelodau cynghorau cymuned yng Ngwynedd. Gallai'r goblygiadau adnoddau fyddai'n deillio o gynnig hynny fel gwasanaeth fod yn sylweddol, ac roedd angen bod yn ofalus rhag cynnig gwasanaeth na ellid ei gyflawni. Ond efallai bod lle i gael y neges allan. Awgrymwyd ymhellach y gallai'r her fod yn llawer mwy na'r 750 aelod, gan fod yna gyn-aelodau o gynghorau cymuned sy'n parhau i ymddiddori yng nghwaith y cynghorau hynny, ac o bosib' am gyfeirio cwynion at yr Ombwdsmon.

Pwysleisiwyd y dylai'r canllawiau fod yn niwtral o ran rhyw.

**PENDERFYNWYD cyflwyno'r sylwadau a ganlyn mewn ymateb i'r ymgynghoriad, a dirprwyo hawl i'r Swyddog Monitro goladu a chyfleu'r ymateb ar ran y Cyngor:-**

- **Bod y pwyllgor yn croesawu'r ddogfen yn gyffredinol, ac o'r farn ei bod yn ddarllenadwy ac yn hynod ddefnyddiol o ran esbonio'r cod. Credir hefyd bod y defnydd o esiamplau achos a swigod siarad yn ffordd dda o amlygu rhannau o'r ddogfen a'i gwneud yn berthnasol i bobl.**

- **Byddai'n fuddiol petai'r enghreifftiau o dorri'r Cod Ymddygiad a restrir yn y ddogfen hefyd yn nodi beth oedd canlyniad hynny, er mwyn rhoi darlun mwy eglur.**
- **Byddai'r fuddiol petai'r ddogfen yn cynnwys esiamplau o sut mae'r prawf budd cyhoeddus wedi gweithio'n ymarferol, h.y. pa fathau o gwynion sydd wedi croesi'r rhiniog, a pha fathau o gwynion sydd wedi methu.**
- **Y dylai'r ddogfen fod yn niwtral o ran rhyw.**

## 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.45 y.b.

______________________________
**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **14 Mehefin 2021** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2020-21** |
| **Awdur :** | **Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol)** |
| **Gweithredu :** | **Cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad** |

**Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid gwneud hyn fel modd o godi proffil y Pwyllgor a hyrwyddo ei waith.

2. Atodaf er sylw'r Pwyllgor Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021.

3. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

4. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod nesaf. Yna bydd yn cael ei ddosbarthu i'r cynghorau tref a chymuned a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Argymhelliad**

5. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD

# 2020 - 2021

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

[i ddilyn]

**Dr Einir Young**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

DRAFFT

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

[i ddilyn]

**Iwan Evans**
**Swyddog Monitro**
**Cyngor Gwynedd**

DRAFFT

# CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

DRAFT

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol

**Margaret E Jones (aelod ers 2012)**

Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae'n ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi'n aelod gweithgar o Bwyllgor Eisteddfod Chwilog ac yng ngofal y Seremoni Cadeirio.

**Dr Einir Young (aelod ers 2012)**

Wedi ei geni yn y Rhondda a'i magu yn Llanelli a Chwmtwrch mae Einir wedi ymgartrefu yng Ngwynedd ers dros ddeg mlynedd ar hugain. Bu'n byw am gyfnod yng Nghaliffornia ac mae wedi teithio led led y byd yn enwedig i Affrica yn gweithio gyda chymunedau ymylol. Cymru yw canolbwynt ei gwaith erbyn hyn ond yr un yw'r heriau sy'n wynebu cymunedau - yr angen am weledigaeth hir dymor, sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er gwella neu'n atal pethau rhag mynd yn waeth, integreiddio ar draws cymunedau, cyd weithio ac efallai'n bwysicaf oll cynnwys pawb. Dyma'r union egwyddorion sydd i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor mae Einir a'i thîm yn y Labordy Cynaliadwyedd yn frwd dros hyrwyddo'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu hannog gan y ddeddf ar draws y sefydliad a thu hwnt. Mae cynnal safonau yn elfen mor bwysig i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac i'w gadeirio. Yn ei hamser hamdden mae Einir yn mwynhau cerdded ymysg pethau eraill ac ar hyn o bryd mae hi ei chwaer a'r ci yn cerdded Llwybr Arfordir Cymru ac wedi cyrraedd Marloes yn Sir Benfro. Yn anffodus mae'r pandemig wedi eu rhwystro rhag mynd ymhellach am y tro. Maent wedi cwblhau Llwybr Llechi Eryri.

**David Wareing (aelod ers 2015)**

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy  o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae’n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

**Aled Jones (aelod ers 2016)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae’n cyflogi tîm o 20 aelod staff a dros 15 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae’n byw ym Mangor gyda Tegwen a’r plant, Cai a Beca. Mae’n mwynhau pob math o chwaraeon a chaiff ei weld yn aml yn cefnogi Clwb Rygbi Bethesda a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

**Hywel Eifion Jones (aelod ers 2019)**

Wedi'i eni a'i addysgu yn Nyffryn Clwyd, roedd Eifion yn uwch reolwr gyda Banc Barclays yn gwasanaethu 34 mlynedd mewn nifer o ganghennau ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae wedi ymgymryd â llawer o swyddogaethau gwasanaeth cyhoeddus gan gynnwys Cynghorydd Sir gyda Chyngor Ynys Mon ac aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae'n Ynad ar fainc Gogledd Orllewin Cymru, yn aelod o Fyrddau Pensiwn Gwynedd, Betsi Cadwaladr ac Adra. Mae hefyd yn aelod o Banel Dyfarnu Cymru sy'n penderfynu honiadau o dorri’r cod ymddygiad gan aelodau etholedig Cynghorau Sir a Chymuned.

## <u>Aelod Pwyllgor Cymunedol</u>

**Cynghorydd Richard Parry Hughes (aelod ers 2017)**

Magwyd Richard ar fferm yn Llanaelhaearn ac aeth i Ysgol Ramadeg Pwllheli, Coleg Amaethyddol  Glynllifon ,a Choleg Seale Hayne (Prifysgol Plymouth) . Mae ganddo ôl radd mewn Rheolaeth Fferm.  Bu yn gweithio i bartneriaeth filfeddygon yn Chwilog am dair blynedd ac yn ddarlithydd rhan amser yng Ngholeg Glynllifon, cyn prynu



DRAFT

fferm Penfras Uchaf Llwyndyrys lle bu ei deulu yn denantiaid arni am dros dri chan mlynedd. Mae'n briod ac Eleri ac mae ganddynt dri mab. Yn gyn arweinydd Cyngor Gwynedd, mae yn dal i ffermio. Mae ganddo brofiad helaeth o bwyllgorau gan ddal swyddi fel cadeirydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru cyn ymgymryd â chael ei ethol fel aelod o gyrff cyhoeddus. Bu yn aelod o Gyngor Sir Gwynedd o 1992 hyd 1996 ac yn aelod o Gyngor Gwynedd o 1996 i 2008. Bu'n arwain Cyngor Gwynedd o 2003 i 2008 a hefyd yn lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr Amgylchedd a Chynllunio yn ystod y cyfnod yma. Mae'n aelod brwd o Gwmni Drama Llwyndyrys a chefnogwr amryw o gymdeithasau eraill lleol megis, Antur Aelhaearn a Chyfeillion Eglwys Carnguwch. Mae'n gweithio'n wirfoddol fel gweithiwr achos i'r Farm Community Network . Mae'n aelod o Gyngor Cymuned Llannor ers 1992.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Dewi Roberts (aelod ers 2017)**

Mae Dewi yn byw yn Llanengan ger Abersoch gyda'i wraig Bethan, ac mae ganddynt 5 o blant sydd i gyd yn oedolion. Roedd yn beiriannydd ac yn ddarlithydd peirianneg yng Ngholeg Technegol Bangor cyn ymuno â Heddlu Gogledd Cymru. Yno bu'n Dditectif yn gweithio'n lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, cyn ymddeol ar ôl 29 mlynedd o wasanaeth.

Cafodd ei ethol ym mis Mai 2017 fel Cynghorydd Gwynedd yn cynrychioli Ward Abersoch. Ers ei ethol mae wedi Cadeirio Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd ac mae'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal, Cadeirydd Pwyllgor Ardal Dwyfor, yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac yn Gadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gwynedd.

Yn ogystal â bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau, mae hefyd yn aelod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, yn Warden Eglwys Llanengan ac yn eistedd ar Gyngor Plwyf yr Eglwys. Mae hefyd yn gwasanaethu fel Llywodraethwr ar Ysgol Abersoch ac Ysgol Botwnnog.

**Cynghorydd Beth Lawton (aelod ers 2017)**

Mae Beth yn byw ym Mryncrug ac yn berchen ffatri leol. Mae'n Gynghorydd Sir dros ardal Bryncrug/Llanfihangel sydd yn cynnwys pentre' Bryncrug ac Abergynolwyn. Mae hefyd yn Gynghorydd Cymuned ac yn gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn. Mae'n weithgar ar sawl pwyllgor yn y gymuned yn cynnwys Carnifal Abergynolwyn, Ffair Wledig Bryncrug, Pwyllgor Apêl Ysbyty Tywyn a llawer eraill. Mae'n Is- gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd ac yn gyfarwyddwr ar y cwmni hamdden newydd .

**Cynghorydd Anne Lloyd-Jones (aelod ers 2017)**

Mae Anne yn byw ac yn rhedeg busnes twristiaeth fferm yn Nhywyn, ac mae wedi cynrychioli Tywyn ar Gyngor Gwynedd ers 1995 a chyn hynny roedd yn aelod o Gyngor Dosbarth Meirionnydd am wyth mlynedd. Etholwyd hi'n gyntaf fel aelod o Gyngor Tref Tywyn yn 1985 a hi oedd Faeres gyntaf yn 1991, ac eto yn 2004, ac roedd yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2009. Mae hi'n gyn-gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ac yn un o aelodau gwreiddiol Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Roedd hi'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Meirionnydd, ac yn Gadeirydd presennol Cronfa Apêl Ysbyty Tywyn a'r Cylch.

Mae hi'n aelod ac yn gyn-gadeirydd Ysgol Penybryn ac yn aelod ar gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn.

Roedd Anne yn Gadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru rhwng 2001-2016, yn aelod sefydliadol ac yn gyn-lywydd a Thrysorydd Clwb Inner Wheel Tywyn a bu'n Drysorydd cangen leol yr NSPCC ers 1989.

Mae Anne yn briod â John ac mae ganddyn nhw dair merch a dwy wyres sy’n efeilliaid.

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro’r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o’r Gwasanaeth Cyfreithiol a’r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi’r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a’i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru Ffôn 01286 679015
- Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol). E-bost: sionhuws@gwynedd.llyw.cymru Ffôn: (01286) 679168

DRAFT

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2020 - 2021

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## Achosion fu gerbron y Pwyllgor

Eleni, ni chyfeiriwyd unrhyw gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor am benderfyniad.

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'.  Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y.  goddefiad.

Ni chyflwynwyd un cais am oddefeb  i'r Pwyllgoryn ystod y flwyddyn.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod.  Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol.  Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor. Erbyn hyn mae Pwyllgorau Safonau Ceredigion a Phowys wedi ymuno â'r Fforwm.

**Atodiad 1**

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2020-2021

**9 TACHWEDD 2020**

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2019/20
- Derbyn diweddariad ar y Protocol ar Gyfer Cynnal Cyfarfodydd yn Rhithiol
- Derbyn adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau

**22 CHWEFROR 2021**

- Cynnal Hunan Asesiad a llunio Rhaglen Waith ar gyfer y fwlyddyn i ddod
- Ymateb i Ymgynghoriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Canllawiau Drafft Newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Tref a Chymuned
- Derbyn adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau

DRAFFT

**Atodiad 2**

**Atodiad 2**

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**

| Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad yr Ombwdsmon |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 2019000952**<br><br>Cwynodd swyddog o Gyngor Tref fod aelod wedi ysgrifennu llythyr amharchus at drydydd parti. | Yn dilyn ymchwiliad:<br><br>Canfu'r Ombwdsmon fod mwyafrif y sylwadau a wnaed gan yr aelod yn wleidyddol eu natur.<br><br>Fodd bynnag, ystyriwyd bod sylwadau'r aelod i trydydd parti, derbynydd y llythyr, yn amharchus. Er bod yr Ombwdsmon o'r farn bod y sylwadau hynny'n awgrymu torri paragraff 4 (b) o'r Cod, ar ôl ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan y derbynnydd a'r dystiolaeth ehangach sydd ar gael, nid oedd o'r farn y byddai'n gymesur nac yn y budd cyhoeddus i gymryd unrhyw gamau pellach.<br><br>Nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod tystiolaeth i awgrymu bod cynnwys y llythyr a anfonwyd gan yr aelod yn awgrymu torri paragraff 6 (1) (a) o'r Cod. |

| | |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202000026**<br><br>Cwyn bod  cynghorydd wedi ymweld ag eiddo’r achwynydd yn ystod y ‘Cyfnod Clo’ i ofyn os mai dyna oedd ei brif  breswylfa. Roed yr achwynydd yn teimlo bod agwedd y cynghorydd yn ymosodol iawn ac roedd yn cwyno am ei ymddygiad yn ystod yr ymweliad. | Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio.  Nid oedd wedi ei berswadio, yng nghyd-destun y pandemig Coronafirws, bod unrhyw un o'r gweithredoedd penodol a nodwyd gan yr achwynydd yn gyfystyr â thorri'r Cod. Roedd cryn bryder cyhoeddus wedi'i godi ar y pryd yn lleol ac yn genedlaethol ynghylch teithio i ail gartrefi a'u meddiannu. Cafwyd cyngor gan lywodraeth genedlaethol a rhanbarthol, a oedd wedi derbyn cryn gyhoeddusrwydd, yn nodi na ddylid mynd ar unrhyw deithiau diangen i ail gartrefi. |
| **Cwyn Rhif 201907387**<br><br>Cwyn fod cynghorydd cymuned wedi methu â thrin eraill gyda pharch a gwneud honiadau maleisus a difenwol yn erbyn aelodau eraill o’r cyngor. | Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio. Roedd o’r farn bod yr iaith yr aelod a’r feirniadaeth yr oedd yn ei gwneud yn disgyn i’r categori o fynegiant gwleidyddol. Hefyd roedd ei beirniadaeth o aelodau eraill wedi ei wneud ganddi yng nghyd-destun yr angen i aelodau ymddwyn yn unol â’r Cod Ymddygiad a’i barn bod democratiaeth leol yn cael ei dan seilio gan yr hyn yr oedd hin ei weld fel ymddygiad nad oedd yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 20201141**<br><br>Cwyn bod cynghorydd tref yn gyfrifol am y penderfyniad i atal grant i gorff lleol drwy ei gyhuddo o weithredu yn anghyfreithlon. Nad oedd gan y cynghorydd unrhyw gymwysterau yn y gyfraith. Honwyd ei fod hefyd wedi rhoi dogfen i'r Clerc yn gyfrinachol heb ganiatâd y Cyngor gan dorri'r Cod Ymddygiad sydd yn dweud bod gan bob aelod o'r Cyngor yr hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn unrhyw gyfarfod. Roedd yn honni iddo dorri egwyddorion sylfaenol y Cod Ymddygiad drwy roi ei agenda personol o flaen ei gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau i'r dref. | Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio. Nid oedd yr achwynydd wedi darparu unrhyw dystiolaeth uniongyrchol i brofi fod yr aelod wedi ceisio defnyddio'i safle'n amhriodol i achosi anfantais i'r corff lleol dan sylw, nag wedi methu â gwneud penderfyniad yn wrthrychol. Nid oedd unrhyw awgrym fod y dogfennau yn gyfrinachol nac ychwaith fod y trosglwyddiad yn amhriodol |
| **Cwyn Rhif 202002320 a 202002705**<br><br>Cwyn yn erbyn cynghorydd tref gan gyd-gynghorydd ei fod wedi methu a dangos parch tuag ato ef a'i deulu a'i fod wedi ei fwlio. | Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio. Er bod yr aelod wedi darparu llawer o wybodaeth am ei gŵyn, nid oedd wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth uniongyrchol fod y cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202002837**<br><br>Cwyn bod cynghorydd cymuned, yn ystod cyfarfod o'r cyngor dros Zoom, wedi torri'r cod drwy ei ymddygiad tuag at yr achwynydd fel aelod o'r cyhoedd, a thuag at gynghorydd arall. | Penderfynodd yrOmbwdwmon beidio ymchwilio.  Nid oedd yr achwynydd wedi cyflwyno tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r gŵyn. Serch hynny hyd yn oed pe bai tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi'r gŵyn, nid oedd wedi ei berswadio y byddai'r mater yn cwrdd â'r prawf dau gam.<br><br>Mewn perthynas â'r ymddygiad tuag at yr aelod arall,  roedd gwahaniaeth clir rhwng cymryd rhan gadarn mewn dadl a chymryd rhan mewn ymosodiadau personol ar unigolion. Nid oedd wedi ei berswadio bod yr ymddygiad mor ormodol fel ei fod yn gyfystyr ag ymosodiad personol a allai fod yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad.<br><br>Mewn perthynas â'r ymddygiad tuag at yr achwynydd, nid oedd yr Ombwdsmon yn cymeradwyo'r sylwadau a byddai'n ystyried ystumiau o'r fath yn anghwrtais, ac roedd yn atgoffa'r Cynghorydd o'i rwymedigaethau o dan y Cod Ymddygiad a sut y gallai theatreg o'r fath yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus gael ei ddehongli gan aelodau o'r cyhoedd y mae'n eu cynrychioli. Serch hynny, hyd yn oed pe bai tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi'r gŵyn, nid oedd wedi ei berswadio y byddai'r digwyddiad hwn, ar ei ben ei hun, yn cwrdd â phrawf budd cyhoeddus yr Ombwdsmon ar gyfer ymchwiliad. |

DRAFT

| **Cwynion Rhif.202005454 a 202005455**<br><br>Cwyn gan gynghorydd tref yn erbyn dau gyd-gynghorydd bod dau daliad, am wasanaethau garddio, wedi'u gwneud heb gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid na'r Cyngor llawn a bod y Cynghorwyr wedi cydgynllwynio a denu'r Clerc i wneud y taliadau hyn. | Dim ymchwiliad<br><br>Nid lle'r Ombwdsmon oedd penderfynu a oedd taliadau'n cwrdd â Rheoliadau Ariannol ai peidio ond, yn hytrach, a oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu torri'r Cod.<br><br>O ran y wybodaeth a ddarparwyd ni ddaeth yr Ombwdsmon o hyd i unrhyw dystiolaeth i ategu'r honiadau a wnaed gan yr achwynydd. |
|---|---|



| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 6 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | 2 |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 6 |
| Aelod o'r cyhoedd | 2 |
| Swyddog | 1 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 9 |
| Datgan Buddiant | 0 |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | 0 |
| **Canlyniad** | |

| | |
|---|---|
| Dim ymchwiliad | 8 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 0 |
| Ymchwiliad –dim camau pellach | 1 |
| Ymchwiliad - cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | 0 |
| Ymchwiliad - cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru | 0 |



DRAFFT

Eitem 8

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **14 Mehefin 2021** |
| **TEITL** | **Deddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – Newidiadau i'r Fframwaith Foesegol.** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

**1. Rhagarweiniad**

Mae cryn hanes i'r Ddeddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau ( Cymru) 2021 sydd a'i wreiddiau ym Mil Lywodraethol Leol ( Cymru) gyflwynwyd gan Leighton Andrews yn 2015. Ers hynny mae sawl newid a datblygiad yn amcan y deddfwriaeth â'r pwyslais. Y prif newid yw'r symud yn ôl oddi wrth ddeddf oedd a'i ffocws ar ad-drefnu y Cynghorau boed yn wirfoddol neu drwy statud.

Gerbron bellach mae Deddf sydd yn cyflwyno nifer o newidiadau a grymoedd ynglŷn a llywodraethant Llywodraeth Leol yng Nghymru. Nid yw hyn i ddweud nad oes elfennu o'r Ddeddf sydd yn bellgyrhaeddol yn arbennig felly ym maes Etholfraint Llywodraeth Leol , Cyd Weithio a Rheoli Perfformiad. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau sydd yn deillio yn uniongyrchol o'r trefniadau dros dro roddwyd mewn lle yn ystod y cyfnod Argyfwng Coronafeirws.

**2.Y Ddeddf**

Derbyniodd y Ddeddf Gyd-Syniad brenhinol ar yr 20fed o Ionawr 2021 . Mae 9 prif ran i'r Ddeddf sydd yn pontion sydd yn berthnasol i Brif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chymuned.. Mae'r darpariaethau yn dod i rym yn ystod y 12 – 15 Mis nesaf. Mae crynodeb o ddarpariaethau'r Deddf yn Atodiad 1.

**3. Newidiadau i'r Fframwaith Foesegol**

Mae rhan 4 o'r Deddf yn cynnwys dau ddarpariaeth sydd ynglŷn a chynnal safonau ymddygiad aelodau a swyddogaethau y Pwyllgor Safonau ( Atodiad 2):

- Dyletswydd statudol ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ynglŷn a safonau ymddygiad aelodau
- Gosod adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau ar sail statudol.

.4. **Dyletswydd ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol.**

(a) Gosodir dau brif ddyletswydd ar Arweinydd Grŵp drwy Adran 62 o'r Deddf: .

- I gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safon uchel o ymddygiad gan aelodau eu grŵp.
- Cyd weithio gyda'r Pwyllgor Safonau wrth iddo weithredu ei swyddogaethau.

Yn ogystal mae swyddogaethau y pwyllgor yn cael eu hymestyn i gynnwys:

- Monitro sut mae arweinyddion grwpiau yn cyfarch y dyletswydd
- Rhoi arweiniad a hyfforddiant i'r arweinyddion ar eu dyletswyddau.

(b) Mae'r cysyniad o Grŵp Gwleidyddol yn deillio o ddarpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 oedd yn sefydlu y gofyn cyfreithiol o sicrhau cydbwysedd gwleidyddol ar draws Pwyllgorau ac Is Bwyllgorau a phenodiadau eraill. Er, ran amlaf maent yn adlewyrchu aelodaeth Pleidiau Gwleidyddol nid ydynt yn cynrychioli yr un peth. Fe'i ffurfir drwy drefn statudol er cyfarch a manteisio ar y gyfundrefn. Felly ar hyn o bryd ar Gyngor Gwynedd ceir y Grwpiau Gwleidyddol canlynol:

Plaid Cymru

Annibynnol

Llais Gwynedd

Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd

Propel

Mae hefyd yn ofyn fod aelod yn cael ei adnabod fel Arweinydd y Grŵp. Amcan y drefn yw sicrhau tegwch gwleidyddol wrth ddyrannu seddi ond mae hefyd yn berthnasol i'r hawl i gael swyddog fel cynorthwyydd gwleidyddol.

(c) Hyd yn hyn mae rôl uniongyrchol Arweinyddion Grwpiau ynglŷn a'g ymddygiad eu haelodau wedi bod yn lled anffurfiol. Er fod Arweinyddion Grwpiau a ddiddordeb amlwg yn ymddygiad eu haelodau nid yw hyn wedi ei ymgorffori mewn dyletswydd o'r math yma. O ran ffurfioldeb prif rôl yr Arweinyddion fyddai cynorthwyo ar ddatrysiadau mewnol neu anffurfiol gyda aelodau er cynnal safonau e.e dan Protocol Aelodau Swyddogion neu Safon Gwynedd.

**5. Trafodaeth**

Mae'r dyletswydd newydd yma fydd yn dod i rym ym mai 2022 yn gosod gofyn positif ar Arweinyddion Grwpiau i gymryd camau hyrwyddo a chynnal ymddygiad . Felly, gellir gweld fod gosod y gofyn arnynt yn golygu fod angen medru dangos camau penodol sydd yn cael eu cymryd i gynnal y dyletswydd yma. Mae hyn am orfod gweithio mewn cyd-weithrediad gyda'r Pwyllgor yma sydd yn myndi olygu ffurfio perthynas neu gyfathrebu uniongyrchol gyda Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol mewn modd nad yw wedi digwydd hyd yn hyn. Gellir gweld fod hyn yn mynd i fod yn gam cadarnhaol i gefnogi safonau ymddygiad aelodau ac i osgoi problemau a materion rhag datblygu i fod yn broblemau mwy. Mae darpariaeth dan y Ddeddfwriaeth i'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau statudol a rheoliadau ar gyfer gweithredu y dyletswydd a bydd angen cadw golwg ar y rhaglen waith o du'r Llywodraeth.

**6. Argymhelliad**

1. **Yn ddarostyngedig i gyhoeddi arweiniad gan y Llywodraeth dylid cymryd camau i gynnal hyfforddiant i Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ar y gofynion a'r sut gellid eu cyfarch.**
2. **Dylai'r Pwyllgor Safonau sefydlu Protocol ar gyfer gweithredu, cyd-weithredu a monitro gweithrediad y dyletswydd erbyn Rhagfyr 2021 a hynny mewn cyd – drafodaeth gyda Arweinyddion a Dirprwy Arweinyddion Grwpiau cyfredol y Cyngor.**
3. **Dylid gosod yr uchod o fewn Rhaglen Waith y Pwyllgor.**

**Atodiad 1**

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIAD( CYMRU) 2021**

**RHAN 1 - ETHOLIADAU**

Mewn grym ar gyfer etholiad 2022.

1. Ymestyn yr Etholfraint i oedran 16 i fyny ac hefyd pleidleiswyr tramor cymwys .
2. Hawl i swyddogion cyngor sefyll etholiad heb ofyn iddynt ymddiswyddo os nad ydynt yn llwyddiannus ( eithrir swyddogion mewn swyddi wleidyddol gyfyngedig)
3. Hawl i Gyngor ddewis trefn Pleidleisio Mwyafrifol neu STV. Bydd yr hawl yma yn dod yn weithredol wedi etholiadau 2022.

**RHAN 2 – PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL I AWDURDODAU LLEOL**

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Hydref 2021

- Rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol Brif Gyngor a Rhai Cynghorau Tref a Chymuned Cymwys
- Adlewyrchu Pŵer Cyffelyb yn Lloegr – Felly er fod y pŵer yn rhoi hyblygrwydd i'r Cynghorau mae unrhyw gyfyngiadau statudol sydd eisoes mewn grym neu ddaw i rym yn cael blaenoriaeth.

**RHAN 3 - HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL**

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Mai 2022

- Dyletswydd i annog cyfranogiad y cyhoedd mewn materion megis penderfyniadau
- Gofyn i fabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad
- Gofyn i fabwysiadu Cynllun Deisebau
- Gofyn cyhoeddi Canllawiau i'r Cyfansoddiad
- Gosod gofyn statudol i we ddarlledu ystod o gyfarfodydd.
- Rhoi mynediad o bell gan aelodau ar sail statudol – Bydd hyn mewn grym ar gyfer Mai 2021.
- Ymgorffori newidiadau i faterion megis cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd ac ymdrin a materion megis cyhoeddi penderfyniadau.

**RHAN 4 – GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL**

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Mai 2022

- Sefydlu Swydd "Prif Weithredwr" ar sail statudol gyda cyfrifoldebau penodol.
- Caniatáu rhannu swyddi aelodau Cabinet
- Caniatáu penodi aelodau fel cynorthwyon Aelodau Cabinet
- Caniatáu rhannu swyddi Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion
- Arweinyddion Grwpiau a chyfrifoldeb statudol am ymddygiad eu haelodau
- Gosod adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau ar sail statudol.

**RHAN 5 – CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU**

Mae'r rhan yma mewn grym ac mae rheoliadau drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad. Ymddengys ar hyn o bryd fod yr ymgynghoriad wedi amlygu ystod o faterion sydd yn derbyn sylw pellach)

- Pŵer gweinidogion i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforedig. Mae'r rhain yn fath newydd o gorff llywodraeth leol. Byddent yn gorfforaethau gyda statws cyfreithiol eu hunain.
- Arweinyddion y Cynghorau fydd aelodau craidd
- Pŵer mandadu – Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth, Llesiant Economaidd a Gwella Ysgolion. Mae'r rheoliadau drafft wedi adnabod rhanbarth Gogledd Cymru fel ardal y. Cyd Bwyllgor
- Hawl gan 2 neu fwy o gynghorau wneud cais i sefydlu drwy offeryn statudol

**RHAN 6 – PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU PRIF GYNGHORAU**

Dod i rym Ebrill 2021 gyda rhai eithriadau - isod

- Sefydlu cysyniad o adroddiad perfformiad blynyddol statudol ac ymgynghori fel rhan o'r broses
- Apwyntio "Panel" ar gyfer cynnal asesiad perfformiad - **Dod i rym Mai 2022**
- Angen am osod Amcanion Gwella ( Gwerth Gorau) yn cael ei ddileu
- Sefydlu ac enwi Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bellach yn statudol
- Pwyllgor Archwilio yn mabwysiadu swyddogaeth trosolwg trefniadau cwynion
- Rhaid i o 'leiaf 1/3 yr aelodau fod yn lleyg ynghyd a'r Cadeirydd - **Dod i rym Mai 2022**

**RHAN 7 – UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD**

Mewn grym gyda ambell eithriad technegol

- Sefydlu fframwaith ar gyfer proses uno cynghorau pe fyddai cynllun o'r fath yn dod ymlaen.

**RHAN 8 – CYLLID LLYWODRAETH LEOL**

Mewn Grym dau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol

- Pwerau i fynnu gwybodaeth yn ymwneud â hereditamentau, gwybodaeth sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw person yn atebol i dalu trethi annomestig,
- Tynnu ymaith y pŵer i ddarparu ar gyfer Carcharu Dyledwyr y Dreth Gyngor

**RHAN 9 – AMRYWIOL**

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Mai 2022

- Rhoi statws gwarchodaeth prif swyddog statudol i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
- Diddymu y rhwystr ar Swyddog Monitro fod yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
- Darpariaethau ynglŷn ag uno a dad-uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Atodiad 2 /Appendix 2**

**“52A County and county borough councils: duties of leaders of political groups in relation to standards of conduct**

(1) A leader of a political group consisting of members of a county council or county borough council in Wales—

> (a) must take reasonable steps to promote and maintain high standards of conduct by the members of the group, and
>
> (b) must co-operate with the council’s standards committee (and any sub-committee of the committee) in the exercise of the standards committee’s functions.

(2) In complying with subsection (1), a leader of a political group must have regard to any guidance about the functions under that subsection issued by the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers may by regulations make provision for the purposes of this section about the circumstances in which—

> (a) members of a county council or county borough council in Wales are to be treated as constituting a political group;
>
> (b) a member of a political group is to be treated as a leader of the group.

(4) Before making regulations under subsection (3), the Welsh Ministers must consult such persons as they think appropriate.”

-----------------------------------------------------

“(2A) A standards committee of a county council or county borough council in Wales also has the specific functions of—

> (a) monitoring compliance by leaders of political groups on the council with their duties under section 52A(1), and
>
> (b) advising, training or arranging to train leaders of political groups on the council about matters relating to those duties.”

-----------------------------------------------------------

**“56B Annual reports by standards committees**

(1) As soon as reasonably practicable after the end of each financial year, a standards committee of a relevant authority must make an annual report to the authority in respect of that year.

(2) The annual report must describe how the committee’s functions have been discharged during the financial year.

(3) In particular, the report must include a summary of—

> (a) what has been done to discharge the general and specific functions conferred on the committee by section 54 or 56;

(b) reports and recommendations made or referred to the committee under Chapter 3 of this Part;

(c) action taken by the committee following its consideration of such reports and recommendations;

(d) notices given to the committee under Chapter 4 of this Part.

(4) An annual report by a standards committee of a county council or county borough council in Wales must include the committee’s assessment of the extent to which leaders of political groups on the council have complied with their duties under section 52A(1) during the financial year.

(5) An annual report by a standards committee of a relevant authority may include recommendations to the authority about any matter in respect of which the committee has functions.

(6) A relevant authority must consider each annual report made by its standards committee before the end of 3 months beginning with the day on which the authority receives the report.

(7) The function of considering the report may be discharged only by the relevant authority (and accordingly is not a function to which section 101 of the Local Government Act 1972 applies).

(8) In this section “financial year” means a period of 12 months ending with 31 March.”

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **14 Mehefin 2021** |
| **Teitl :** | **Coflyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon** |
| **Awdur :** | **Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol)** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

1.1. Atodir copi o’r Llyfr Achosion diweddaraf a gyhoeddir gan yr Ombwdsmon yn chwarterol fel arfer. Bydd Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael cyfle yn y cyfarfod i drafod materion a nodir yn y Llyfr Achosion.

**2. Argymhelliad**

2.1 Derbyn yr Adroddiad

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau perthnasol yng Nghymru wedi torri’r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, gall yr Ombwdsmon ddod i bedwar casgliad, a nodir o dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000:

a) nad oes tystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau ynglŷn â’r materion yr ymchwiliwyd iddynt;

c) bod y mater yn cael ei gyfeirio at swyddog monitro'r awdurdod i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

d) cyfeirio’r mater at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn fel arfer yn digwydd mewn achosion mwy difrifol).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae’n ofynnol i’r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad yr ymchwiliad i’r pwyllgor safonau neu i un o dribiwnlysoedd Panel Dyfarnu Cymru, a nhw fydd yn ystyried y dystiolaeth a ganfyddir gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Y Panel fydd hefyd yn penderfynu a yw’r Cod wedi’i dorri ac os felly, pa gosb (os o gwbl) ddylid ei rhoi.

Mae’r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o adroddiadau a gyhoeddwyd gan y swyddfa hon ac roedd y canfyddiadau’n un o’r pedwar a nodwyd uchod. Fodd bynnag, yng nghyswllt canfyddiadau (c) a (d), mae’r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad dim ond yn cynnwys crynodebau o’r achosion hynny y mae’r pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru wedi’u cwblhau a bod canlyniad y gwrandawiad yn hysbys. Mae’r rhifyn hwn yn ymdrin â mis Ionawr hyd at fis Rhagfyr 2020.

Coflyfr
Y Cod Ymddygiad
Issue 24 / April 2021

# Cynnwys

Dim tystiolaeth o dorri'r Cod ... 3
Nid oes angen gweithredu ... 3
Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau ... 10
Cyfeririwyd at Banel Dyfarnu Cymru ... 11

# Cynodebau o achosion

## Dim tystiolaeth o dorri'r Cod

Nid oes crynodebau yng nghyswllt y canfyddiad hwn.

## Nid oes angen gweithredu

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Dyletswydd i gynnal y gyfraith
### Rhif yr Achos: 201804590 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2020

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn am Aelod o Gyngor Wrecsam. Honnwyd bod ymddygiad yr Aelodau wedi dwyn anfri ar y Cyngor yn groes i'r Cod Ymddygiad. Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i'r materion y cafwyd cwyn amdanynt. Rhoddwyd gwybodaeth gan bartïon perthnasol gan gynnwys y Cyngor. Ar ôl ystyried yn ofalus y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad, penderfynodd yr Ombwdsmon na fyddai er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd materion ymhellach ac na ddylid cymryd unrhyw gamau ynglŷn â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt.

### Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn – Hybu cydraddoldeb a pharch
### Rhif yr Achos: 201906707 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2020

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd nad oedd yr Aelod wedi dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill, wedi bwlio ac wedi ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar y Cyngor. Yn ystod camau cynnar yr ymchwiliad, cyflwynodd yr Aelod adroddiad. Dywedodd ei fod yn credu bod cyfiawnhad dros ei weithredoedd a chynigiodd ymddiheuriad os oedd yr Achwynydd wedi cael cam-argraff o'i bendantrwydd. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod ymateb yr Aelod a'i ymddiheuriad yn ddigonol i ddatrys y gŵyn. Felly, ystyriodd yr Ombwdsm

### Cyngor Cymuned Sain Dunwyd - Datgelu a chofrestru buddiannau
### Rhif yr Achos: 201905525 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2020

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymuned Sain Dunwyd ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd bod yr Aelod wedi methu â datgan buddiant personol a rhagfarnllyd pan oedd yn eistedd ar y Panel Cyfweld yn ystod cyfweliad ar gyfer rôl Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor Cymuned. Canfu'r Ombwdsmon fod gan yr Aelod ddiddordeb personol yn y cyfweliad oherwydd ei pherthynas â brawd yr ymgeisydd gan gyfaddef nad oeddent ar delerau da a bod tensiwn rhyngddynt. Barn yr Ombwdsmon oedd y byddai aelod o'r cyhoedd, gyda gwybodaeth am yr amgylchiadau, yn ystyried bod budd yr Aelod mor arwyddocaol fel y byddai'n niweidio ei barn ynghylch budd y cyhoedd. Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi cael gwybod gan y Clerc nad oedd yn ofynnol iddi ddatgan buddiant yn y cyfweliad. Er mai cyfrifoldeb pob aelod unigol yw penderfynu datgan buddiant, nid oedd yn afresymol i'r Aelod fod wedi gweithredu ar gyngor y Clerc. Roedd yr ymchwiliad yn ystyried a oedd methiant yr Aelod i ddatgan buddiant personol a rhagfarnllyd wedi achosi unrhyw niwed ac a oedd wedi effeithio ar y penderfyniad i benodi i rôl Aelod Cyfetholedig.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth ddogfennol na chofnod ysgrifenedig o'r cyfweliadau. Felly, roedd penderfyniad yr Ombwdsmon yn seiliedig ar y ffaith bod y penderfyniad i benodi'r ymgeisydd llwyddiannus wedi'i wneud yn unfrydol gan y Panel Cyfweld. Ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael, nid ystyriwyd bod presenoldeb yr Aelod a'i rhan yn y broses gyfweld wedi cael effaith andwyol ar gais yr ymgeisydd. Oherwydd y ffactorau hyn, daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen i'r Ombwdsmon gymryd camau pellach er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, argymhellodd i Glerc y Cyngor y dylid rhoi hyfforddiant ar fuddiannau'r aelodau a'u rhwymedigaethau dan y Cod Ymddygiad i'r Cyngor.

**Cyngor Cymuned St Harmon - Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Rhif yr Achos: 201903933 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2020**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn a oedd yn nodi bod Cynghorydd ("y Cynghorydd") Cyngor Cymuned St Harmon wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau ("y Cod"). Honnwyd nad oedd yr Aelod wedi dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill, a'i fod wedi methu â chymryd camau priodol ynghylch buddiant personol a rhagfarnllyd a oedd ganddo mewn proses cyfethol a gynhaliodd y Cyngor.

Yn ystod yr ymchwiliad, gofynnwyd am wybodaeth gan y Cyngor yn ogystal â gan nifer o dystion. Nid oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn cadarnhau bod ymddygiad yr Aelod wedi dangos methiant i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill fel y gellid ystyried ei fod wedi torri'r Cod.

Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi methu â chymryd camau priodol ynghylch buddiant personol a rhagfarnllyd a oedd ganddo yn y broses gyfethol. Fodd bynnag, nid oedd yr Aelod wedi dylanwadu ar y penderfyniad a wnaed ynghylch cyfethol mewn unrhyw ffordd. Roedd eisoes wedi cydnabod, derbyn ac ymddiheuro am ei weithredoedd ac roedd wedi cymryd camau i geisio hyfforddiant ar ei rwymedigaethau o dan y Cod.

Felly, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad.

**Cyngor Sir Caerfyrddin - Uniondeb**
**Rhif yr Achos: 201900874 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2020**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Sir Caerfyrddin ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd bod yr Aelod wedi methu â thrin aelodau o staff y Cyngor gyda pharch ac ystyriaeth, wedi torri cyfrinachedd, ac wedi dwyn anfri ar swydd y Cynghorydd ynglŷn â 2 ddigwyddiad a ddigwyddodd yn ystod y broses ddethol ar gyfer Prif Weithredwr newydd y Cyngor. Y digwyddiad cyntaf oedd bod yr Aelod wedi rhoi gwybod yn fwriadol i'r ymgeisydd aflwyddiannus nad oedd wedi cael y swydd, gan osgoi'r gweithdrefnau Adnoddau Dynol ("AD") a oedd ar waith. Yr ail ddigwyddiad oedd bod yr Aelod wedi anwybyddu cyfarwyddyd clir na ddylai Cynghorwyr roi cyhoeddusrwydd i enw'r ymgeisydd llwyddiannus am 30 munud.

Bu'r Ombwdsmon yn cyfweld nifer o dystion a chanfu fod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi rhoi gwybod yn ddamweiniol i'r ymgeisydd aflwyddiannus nad oedd wedi cael y swydd ac nad oedd wedi bwriadu osgoi gweithdrefnau Adnoddau Dynol. Derbyniodd yr

Ombwdsmon fod yr Aelod wedi dangos edifeirwch ac wedi ymddiheuro. Penderfynodd yr Ombwdsmon na thorrwyd y Cod gan mai camgymeriad gwirioneddol gan yr Aelod oedd hyn.

Penderfynodd yr Ombwdsmon fod tystiolaeth bod yr Aelod wedi anwybyddu cyfarwyddyd clir i beidio â rhoi cyhoeddusrwydd i enw'r ymgeisydd llwyddiannus, ac y gallai hyn fod wedi arwain at dorri'r Cod. Nid oedd yr Aelod wedi ystyried yr effaith ar yr ymgeiswyr, eu ffrindiau a'u teuluoedd ehangach, na'r staff a gyflogir gan y Cyngor gyda phob parch wrth gyhoeddi'r canlyniad. Ar ben hynny, roedd yr wybodaeth yn gyfrinachol nes bod y gweithdrefnau priodol i roi cyhoeddusrwydd i'r penodiad wedi'u cwblhau, ac roedd yr Aelod wedi achub y blaen arnynt. Penderfynodd yr Ombwdsmon y gallai'r camau hyn ddwyn anfri ar swydd y Cynghorydd.

Fodd bynnag, nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i ddarbwyllo y byddai'n gymesur ac er budd y cyhoedd i gyfeirio'r mater at y Pwyllgo Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Sir Caerfyrddin ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd bod yr Aelod wedi methu â thrin aelodau o staff y Cyngor gyda pharch ac ystyriaeth, wedi torri cyfrinachedd, ac wedi dwyn anfri ar swydd y Cynghorydd ynglŷn â 2 ddigwyddiad a ddigwyddodd yn ystod y broses ddethol ar gyfer Prif Weithredwr newydd y Cyngor. Y digwyddiad cyntaf oedd bod yr Aelod wedi rhoi gwybod yn fwriadol i'r ymgeisydd aflwyddiannus nad oedd wedi cael y swydd, gan osgoi'r gweithdrefnau Adnoddau Dynol ("AD") a oedd ar waith. Yr ail ddigwyddiad oedd bod yr Aelod wedi anwybyddu cyfarwyddyd clir na ddylai Cynghorwyr roi cyhoeddusrwydd i enw'r ymgeisydd llwyddiannus am 30 munud.

Bu'r Ombwdsmon yn cyfweld nifer o dystion a chanfu fod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi rhoi gwybod yn ddamweiniol i'r ymgeisydd aflwyddiannus nad oedd wedi cael y swydd ac nad oedd wedi bwriadu osgoi gweithdrefnau Adnoddau Dynol. Derbyniodd yr Ombwdsmon fod yr Aelod wedi dangos edifeirwch ac wedi ymddiheuro. Penderfynodd yr Ombwdsmon na thorrwyd y Cod gan mai camgymeriad gwirioneddol gan yr Aelod oedd hyn.

Penderfynodd yr Ombwdsmon fod tystiolaeth bod yr Aelod wedi anwybyddu cyfarwyddyd clir i beidio â rhoi cyhoeddusrwydd i enw'r ymgeisydd llwyddiannus, ac y gallai hyn fod wedi arwain at dorri'r Cod. Nid oedd yr Aelod wedi ystyried yr effaith ar yr ymgeiswyr, eu ffrindiau a'u teuluoedd ehangach, na'r staff a gyflogir gan y Cyngor gyda phob parch wrth gyhoeddi'r canlyniad. Ar ben hynny, roedd yr wybodaeth yn gyfrinachol nes bod y gweithdrefnau priodol i roi cyhoeddusrwydd i'r penodiad wedi'u cwblhau, ac roedd yr Aelod wedi achub y blaen arnynt. Penderfynodd yr Ombwdsmon y gallai'r camau hyn ddwyn anfri ar swydd y Cynghorydd.

Fodd bynnag, nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i ddarbwyllo y byddai'n gymesur ac er budd y cyhoedd i gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Safonau, oherwydd y cyfnod byr o amser y datgelwyd yr wybodaeth cyn y cyhoeddiad swyddogol, ac ystyried barn yr ymgeiswyr bod yr effaith arnynt yn gyfyngedig. Fodd bynnag, credai ei bod wedi bod yn briodol i'r mater gael ei gyfeirio ato. Canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad.r Safonau, oherwydd y cyfnod byr o amser y datgelwyd yr wybodaeth cyn y cyhoeddiad swyddogol, ac ystyried barn yr ymgeiswyr bod yr effaith arnynt yn gyfyngedig. Fodd bynnag, credai ei bod wedi bod yn briodol i'r mater gael ei gyfeirio ato. Canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad.

**Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref – Hybu cydraddoldeb a pharch**
**Rhif yr Achos: 201904216 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2020**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdref ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Honnwyd bod yr Aelod wedi gwneud nifer o gyhuddiadau yn erbyn Cynghorwyr Cymuned a oedd yn gwasanaethu yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar 24 Medi 2019. Honnir ymhellach bod yr Aelod wedyn wedi rhannu copi ysgrifenedig o'i anerchiad, lle'r oedd yn cyhuddo Cynghorwyr Cymuned o fwlio cyn-Glerc y Cyngor Cymuned, gydag aelodau'r wasg a'r cyhoedd.

Ystyriodd yr ymchwiliad baragraffau canlynol y Cod:

- Paragraff 5(a) – datgelu gwybodaeth gyfrinachol.
- Paragraff 6(1)(a) – dwyn anfri.
- Paragraff 6(1)(c) – rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am achosion o dorri'r Cod.
- Paragraff 6(1)(d) – cwynion blinderus, gwamal neu faleisus.
- Paragraff 8(a) – gan roi sylw i gyngor swyddogion yr awdurdod.

Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi annerch y Cyngor Cymuned yn ei gyfarfod ar 24 Medi 2019, lle'r oedd aelodau'r wasg a'r cyhoedd yn bresennol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn ystod y cyfarfod.

Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi gwneud sawl cyhuddiad yn erbyn aelodau eraill o'r Cyngor yn ystod ei anerchiad. Yn hytrach na mynegi ei bryderon yn gyhoeddus, dylai'r Aelod fod wedi codi ei bryderon drwy'r prosesau priodol sydd ar gael ar gyfer gwneud hynny. Gallai codi cyhuddiadau mewn fforwm cyhoeddus o'r fath pan nad oedd gan y rhai a gyhuddwyd gyfle teg i ymateb fod yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.

Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi diystyru cyngor gan Glerc y Cyngor a bod ei weithredoedd yn groes i baragraff 8(a) y Cod. Wrth benderfynu a ddylid cymryd camau pellach ynglŷn â'r achosion posibl hyn o dorri'r Cod Ymddygiad, roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried yn ofalus a oedd er budd y cyhoedd iddo wneud hynny. Ystyriodd yr Ombwdsmon y camau diweddar a gymerwyd gan Swyddog Monitro Rhondda Cynon Taf a Chadeirydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor i gwrdd â'r mwyafrif o aelodau'r Cyngor ym mis Chwefror i annog gwell perthynas waith yn y Cyngor. Cafwyd ar ddeall y daethpwyd i gytundeb ar y cyd ynghylch cymryd agwedd newydd at sut i ddelio â sefyllfaoedd blaenorol lle'r oedd anghytundebau wedi dirywio i ymosodiadau personol. Roedd yr Aelod yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Gan fod y digwyddiadau a ystyriwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn wedi digwydd rai misoedd cyn y cyfarfod gyda'r Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, nid oedd o fudd i'r cyhoedd fynd ar drywydd yr ymchwiliad hwn ymhellach.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Hybu cydraddoldeb a pharch**
**Rhif yr Achos: 202000681 a 202000667 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2020**

Cafodd yr Ombwdsmon gwynion bod Aelod etholedig ("yr Aelod") o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ("y Cyngor") wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau ("y Cod").

Roedd dau Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cwyno bod yr Aelod, ar 7 Mehefin 2020, wedi dynesu atynt wrth Lyn Cychod Cwmbrân ("y Llyn") mewn ffordd ymosodol. Fe ddywedon nhw fod yr Aelod yn gweiddi ac yn mynnu eu bod yn delio â phobl a oedd yn pysgota yn y Llyn yn ystod y tymor caeedig. Fe ddywedon nhw nad oedd yr Aelod yn derbyn nad oedd yn fater i'r heddlu. Dywedodd ei fod yn Gynghorydd gan geisio defnyddio ei swyddogaeth fel bygythiad.

Derbyniodd yr Ombwdsmon adroddiad gan yr Aelod, cafwyd datganiad tyst gan Gynghorydd arall a oedd yn bresennol yn y Llyn, a chafodd wybodaeth gan Heddlu Gwent. Ar sail tebygolrwydd, roedd y dystiolaeth yn dangos y gallai'r Aelod fod wedi torri paragraff 4(b) o'r Cod drwy godi ei lais â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Canfu'r ymchwiliad nad oedd unrhyw ddadl bod yr Aelod yn ystyried ei hun yn Gynghorydd. Eglurodd yr Aelod ei fod wedi gwneud hynny i esbonio ei wybodaeth am ddeddfwriaeth pysgota. Canfu'r Ombwdsmon fod yr Aelod wedi cysylltu â Heddlu Gwent i ofyn am eglurhad ynghylch gorfodi deddfwriaeth pysgota ac i fynegi pryder nad oedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi siarad â'r pysgotwyr, nac wedi eu cynghori, fel y dywedasant wrtho eu bod wedi gwneud.

Ni chanfu'r Ombwdsmon ddigon o dystiolaeth bod yr Aelod wedi bwlio a/neu harasio, na'i fod wedi dwyn anfri ar yr awdurdod.

Canfu'r Ombwdsmon, er bod y dystiolaeth yn awgrymu y gallai'r Aelod fod wedi torri paragraff 4(b) o'r Cod, nad oedd er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd materion ymhellach.

Gofynnodd yr Ombwdsmon i'r Aelod ystyried sut gallai ei ymddygiad gael ei weld yn rhinwedd ei rôl fel Cynghorydd ac awgrymodd y dylai gwblhau hyfforddiant gloywi ar y Cod.

**Cyngor Tref Glyn-nedd – Hybu cydraddoldeb a pharch**
**Rhif yr Achos: 201904472 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2020**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Sir Glyn-nedd ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod").

Cwynodd aelod o'r cyhoedd pan ddaeth yr Aelod i Neuadd y Dref Glyn-nedd ("y Neuadd") ar 20 Medi 2019 gan ddweud ei bod wedi ymddwyn yn ymosodol ac wedi gweiddi arnynt, a bod yr Aelod wedi bygwth "rhoi terfyn" i'w Cytundeb Llogi Neuadd gyda'r Cyngor.

Cafodd yr Ombwdsmon ddatganiadau tystion anghyson gan 3 aelod o'r cyhoedd, yn ogystal â'r achwynydd a'r Aelod. Ar sail tebygolrwydd, roedd y dystiolaeth yn dangos y gallai'r Aelod fod wedi torri paragraff 4(b) o'r Cod drwy weiddi ar yr aelod o'r cyhoedd.

Ni chanfu'r Ombwdsmon ddigon o dystiolaeth bod yr Aelod wedi bwlio na'i bod wedi dwyn anfri ar ei hawdurdod. Ar ben hynny, nid oedd tystiolaeth ategol bod yr Aelod wedi bygwth na fyddai'r achwynydd yn cael llogi'r Neuadd yn y dyfodol, na bod yr Aelod wedi gweithredu ar fygythiad o'r fath.

Canfu'r Ombwdsmon, er bod y dystiolaeth yn awgrymu y gallai'r Aelod fod wedi torri paragraff 4(b) o'r Cod, nad oedd er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd materion ymhellach, yn sgil yr wybodaeth anghyson a gafwyd.

Argymhellodd yr Ombwdsmon i'r Cyngor y dylai drefnu hyfforddiant ar y Cod i'w Aelodau cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**Cyngor Tref Tywyn – Hybu cydraddoldeb a pharch**
**Rhif yr Achos: 201900952 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Medi 2020**

Roedd un o swyddogion Cyngor Tref Tywyn ("y Cyngor") wedi cwyno bod aelod wedi ysgrifennu llythyr amharchus at drydydd parti.

Roedd ymchwiliad yr Ombwdsmon yn ystyried a allai cynnwys y llythyr fod wedi torri paragraffau 4(b) a 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ("y Cod").

Dywedodd yr aelod nad oedd yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel Aelod wrth ysgrifennu'r llythyr. Fodd bynnag, canfu'r Ombwdsmon, gan fod y llythyr yn cyfeirio at fusnes y Cyngor, ei bod yn rhesymol casglu bod yr aelod wedi rhoi'r argraff ei fod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o'r Cyngor pan ysgrifennodd y llythyr. Canfu'r Ombwdsmon fod y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed gan yr Aelod yn wleidyddol eu natur.

Fodd bynnag, ystyriwyd bod sylwadau'r Aelod i dderbynnydd trydydd parti'r llythyr yn amharchus. Er bod yr Ombwdsmon o'r farn bod y sylwadau hynny'n awgrymu bod paragraff 4(b) o'r Cod wedi'i dorri, ar ôl ystyried yr wybodaeth a roddwyd gan y derbynnydd a'r dystiolaeth ehangach a oedd ar gael, nid oedd yn credu y byddai'n gymesur nac er budd y cyhoedd i unrhyw gamau pellach gael eu cymryd.

Nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod tystiolaeth i awgrymu bod cynnwys y llythyr a anfonwyd gan yr aelod yn awgrymu bod paragraff 6(1)(a) o'r Cod wedi'i dorri.

**Cyngor Cymuned y Mwmbwls – Dyletswydd i gynnal y gyfraith**
**Rhif yr Achos: 201904820 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2020**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn am y Cod Ymddygiad ("y Cod") a oedd wedi'i gyfeirio ei hun gan Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymuned yng Nghymru ("y Cyngor") oherwydd ei fod wedi'i enwi mewn Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ("Archwilio Cymru") ynghylch gwariant heb ei awdurdodi gan y Cyngor. Ystyriodd yr Ombwdsmon a allai'r Aelod fod wedi torri paragraff 7(b)(i), (ii), (iii) o'r Cod i ddefnyddio adnoddau'r Cyngor a oedd yn annoeth, yn groes i ofynion yr awdurdod ac yn anghyfreithlon.

Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod Ymgynghoriaeth Gynllunio wedi bilio'r Cyngor am waith nad oedd wedi'i gytuno, a dywedodd yr Ymgynghoriaeth Gynllunio ei fod wedi'i gyfarwyddo gan yr Aelod. Dywedodd yr Aelod adeg y digwyddiadau ei fod yn newydd i'r Cyngor a'i fod yn meddwl bod y gwaith a wnaed i'r Cyngor gan yr Ymgynghoriaeth Gynllunio wedi bod yn rhan o drefniant y cytunwyd arno'n flaenorol gyda'r Cyngor. Dywedodd yr Aelod nad oedd wedi gweithio gydag ymgynghorwyr cynllunio o'r blaen ac nad oedd wedi sylweddoli y byddai ei gyfathrebu penodol â hwy yn arwain at gostau ychwanegol. Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod gan yr Aelod gyfrifoldeb i ddeall telerau trefniadau'r Cyngor yn llawn gyda'r Ymgynghoriaeth Gynllunio, ac y gellid ystyried yn rhesymol bod gweithredoedd a methiant yr Aelod i wneud hynny yn achos posibl o dorri paragraff 7(b), (i), (ii), (iii) o'r Cod.

Fodd bynnag, canfu'r Ombwdsmon hefyd, er bod y Clerc wedi awgrymu y dylai'r Aelod gysylltu â'r Ymgynghoriaeth Gynllunio, nad oedd yr Aelod wedi cael arweiniad clir ar oblygiadau gwneud hynny, a bod cyfathrebu'r Aelod wedi cael effaith gyfyngedig ar y gwariant cyffredinol. Hefyd, nid oedd Archwilio Cymru wedi ymgysylltu â'r Aelod na'r Ymgynghoriaeth Gynllunio i sefydlu pa gyfarwyddyd yr oedd yn ei briodoli i'r Aelod.

Sylwer: Mae crynodebau'n cael eu paratoi ar gyfer pob adroddiad a gyflwynir gan yr Ombwdsmon. Fe all y crynodeb hwn gael ei ddangos ar wefan yr Ombwdsmon ac fe all gael ei gynnwys mewn cyhoeddiadau gan yr Ombwdsmon a/neu mewn cyfryngau eraill. Os hoffech chi drafod defnyddio'r crynodeb hwn, cysylltwch â swyddfa'r Ombwdsmon.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a oedd ar gael a'r wybodaeth a roddwyd gan yr Aelod, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai'n gymesur nac er budd y cyhoedd i unrhyw gamau pellach gael eu cymryd.

## Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau

### Cyngor Sir Ddinbych - Gwrthrychedd a phriodoldeb
### Rhif yr Achos: 201806601 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Medi 2020

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau'r Cyngor. Honnwyd bod yr aelod wedi cam-ddefnyddio ei sefyllfa drwy ymweld â man gwaith aelod o'r cyhoedd a chwyno wrth ei chyflogwr am ffrae breifat rhyngddi hi ac un o'i hetholwyr ym maes parcio'r siop leol.

Penderfynodd yr Ombwdsmon fod tystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi ymddwyn mewn ffordd a oedd yn bwlio ac yn harasio, a bod ei weithredoedd yn ceisio creu anfantais i'r aelod o'r cyhoedd yng ngolwg ei chyflogwr. Roedd y dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod ymddygiad o'r fath yn gallu gwneud drwg i enw da'r Cyngor a dwyn anfri arno. Penderfynodd yr Ombwdsmon fod yr aelod wedi methu â chadw at baragraffau 4(c), 6(1)(a) a 7(a) o God Ymddygiad y Cyngor.

Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.

### Cyngor Cymuned Trelales – Dyletswydd i gynnal y gyfraith
### Rhif yr Achos: 201807411 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2020

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cyn Aelod ("y Cyn Aelod") o Gyngor Cymuned Trelales ("y Cyngor") wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau'r Cyngor. Honnwyd bod yr Aelod Blaenorol wedi camddefnyddio arian y Cyngor drwy godi arian parod a thrafodion cardiau debyd heb awdurdod rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Ionawr 2019.

Cynhaliwyd ymchwiliad gan yr heddlu, ac wedi hynny ymddiswyddodd y Cyn Aelod o'r Cyngor. Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod y Cyn-Aelod, adeg y digwyddiadau, wedi ysgwyddo dyletswyddau ychwanegol ac wedi derbyn lwfansau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor. Canfuwyd bod y Cyn-Aelod wedyn yn cymryd cyfrifoldeb dros gerdyn debyd y Cyngor ac yn ei ddefnyddio ar gyfer prynu nwyddau a chodi arian parod a oedd yn fwy na'r hyn a dderbyniodd eisoes ac na ellid rhoi cyfrif amdano. Dywedodd y Cyn-Aelod ei fod wedi defnyddio cyllid y Cyngor fel hyn oherwydd ei fod yn teimlo bod ganddo hawl i'r arian; fodd bynnag, ni roddodd unrhyw wybodaeth bellach i awgrymu bod ei drafodion er budd y Cyngor.

Penderfynodd yr Ombwdsmon y gallai'r Cyn Aelod fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor, yn benodol, paragraffau 7(a) a 7(b) i), ii), iii), iv) a vi) gan ei fod wedi ceisio cael mantais bersonol ac ariannol drwy gael gafael ar gyllid y Cyngor heb awdurdod, ac wedi camddefnyddio arian y Cyngor. Canfu'r Ombwdsmon hefyd y gellid yn rhesymol ystyried gweithredoedd ac euogfarn y Cyn-Aelod yn ymddygiad a allai ddwyn anfri ar swydd yr aelod neu'r Cyngor a thorri paragraff (6(1)(a) y Cod Ymddygiad o bosibl.

Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.

## Cyfeririwyd at Banel Dyfarnu Cymru

### Cyngor Cymuned Sili a Larnog - Uniondeb
### Rhif yr Achos: 201901994 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Medi 2020

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymuned Sili a Larnog ("y Cyngor") wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau etholedig. Honnwyd bod yr Aelod wedi rhoi cyfres o negeseuon cyhoeddus, ar y llwyfan cyfryngau cymdeithasol Facebook, a allai niweidio enw da'r Cyngor o bosibl.

Canfu'r Ombwdsmon fod 3 neges gyhoeddus, rhwng 10 Ionawr ac 11 Mawrth 2019, a oedd yn cyfeirio at wleidyddion benywaidd uchel eu proffil, yn dramgwyddus iawn ac y gellid eu hystyried yn rhesymol fel rhai a oedd yn dwyn anfri ar Swyddfa neu Awdurdod y Cynghorydd ac a oedd yn awgrymu torri paragraff 6(1)(a) y Cod Ymddygiad. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn mynd y tu hwnt i fynegiant gwleidyddol a'i bod mor eithriadol, petai achos o dorri'r Cod Ymddygiad yn cael ei gadarnhau a chosb yn cael ei gosod, y byddai'n gam cymesur â hawl y Cynghorydd i ryddid mynegiant.

Canfu'r Ombwdsmon hefyd fod y Cynghorydd wedi methu â rhoi tystiolaeth yr oedd yn honni ei bod yn ei dal o ran preifatrwydd y negeseuon a'i fod, drwy wrthod rhoi gwybodaeth, wedi methu â chydymffurfio â chais mewn cysylltiad â'r ymchwiliad a oedd yn awgrymu bod paragraff 6(2) o'r Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ymchwilio at Banel Dyfarnu Cymru i'w ystyried

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **14 Mehefin 2021** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol)** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

Derbyniwyd y penderfyniadau canlynol oddi wrth yr Ombwdsmon ers yr adroddiad diwethaf.

| **Cwyn** | **Penderfyniad** |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202100258**<br><br>Cwyn gan gynghorydd tref fod cyd-gynghorydd, fel Cadeirydd Pwyllgor Personél y Cyngor, wedi methu â'i drin â pharch ac ystyriaeth mewn cysylltiad â chwyn a gyflwynwyd ganddo | Dim ymchwiliad.<br><br>Dim tystiolaeth bod yr achwynydd wedi cael ei drin yn wahanol i unrhyw achwynydd arall. Roedd y penderfyniad i argymell symud yr achwynydd o un o bwyllgorau'r cyngor yn un yr oedd gan y Pwyllgor Personél hawl i'w gymryd.<br><br>Dim tystiolaeth bod gan y cynghorydd fuddiant amhriodol, ariannol neu bersonol yng nghanlyniad y cyfarfodydd fel yr honnir. |
| **Cwyn Rhif 202101077**<br><br>Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd cymunedol wedi trydar ei gefnogaeth i safbwyntiau gwleidyddol eithafol. | Dim ymchwiliad.<br><br>Dim tystiolaeth - roedd cynnwys y trydariad yn wahanol i'r honiad a wnaed yn ei erbyn. |
| **Cwyn Rhif 202101165**<br><br>Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd cymunedol wedi gwneud pedwar trydariad a oedd yn torri Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y cyngor trwy wahaniaethu yn erbyn menywod, methu â | Dim ymchwiliad<br><br>Gellid yn rhesymol dweud bod y trydariadau y cyfeirir atynt yn y gŵyn yn dod o fewn yr hyn a ystyrir fel sylwadau gwleidyddol. Ni pherswadiwyd yr Ombwdsmon fod y cynnwys mor wael fel y byddai'n gyfystyr â thorri'r Cod. Yn |

| | |
|---|---|
| dangos parch ac ystyriaeth a dwyn anfri ar y Cyngor. | ychwanegol at hyn, hyd yn oed pe bai toriad yn cael ei brofi, ni chafodd ei berswadio y byddai unrhyw gosb a allai gael ei gosod yn ymyrraeth gymesur â hawliau ECHR / HRA y Cynghorydd. Felly, ni fyddai ymchwiliad er budd y cyhoedd. |

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion y cafwyd penderfyniad arnynt hyd yn hyn eleni (2021/22):

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 3 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | 2 |
| Swyddog | |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 3 |
| Datgan Buddiant | |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 3 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | |
| Ymchwiliad –dim camau pellach | |
| Ymchwiliad - cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | |
| Ymchwiliad - cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru | |

**4. Achosion Agored**

4.1 Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio** **5**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad** **4**
- **Wedi eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau** **1**

**5. Cyfeiriad at y Pwyllgor Safonau**

5.1 Mae'r Ombwdsmon wedi cwblhau ymchwiliad i honiad fod aelod wedi torri'r cod ymddygiad i aelodau a daeth i'r casgliad y dylid cyfeirio'r materion a oedd dan sylw yn yr ymchwiliad at y Swyddog Monitro i'w hystyried gan y Pwyllgor Safonau. Bydd yr adroddiad

yma yn cael ei gyflwyno i gyfarfod arbennig o’r Pwyllgor, sydd i’w drefnu, er mwyn penderfynu, yn unol â’r drefn statudol, os dylid symud ymlaen i gynnal gwrandawiad.

## 6. Argymhelliad

6.1 Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r wybodaeth